**Atodiad 1**

| Cofnod o Benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur – Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 4 Mai 2021 a 31 Awst 2021 | | |
|---|---|---|
| 208 | 04.05.21 | Cymeradwyo i'r trefniadau ar gyfer Cam 1 o Gynllun Addasu Porth Cynnal gael eu rhoi ar waith ar unwaith. |
| | | Y gallai'r trefniadau ar gyfer cynlluniau chwarae'r haf, fel y nodir yng Ngham 2 Cynllun Addasu Porth Cynnal, ddechrau, gan baratoi cynigion manylach ar gyfer 20 Mai. |
| | | Gwrthod y cais i ddefnyddio traethau'r Cyngor ar gyfer Clwb Padlfyrddio tan 28 Mai yn unol â cheisiadau blaenorol i ddefnyddio tir y Cyngor ar gyfer gweithgareddau chwaraeon. |
| 209 | 11.05.21 | Cytuno â'r argymhelliad y dylai Stryd y Farchnad, Aberystwyth aros ar gau 24/7 trwy gydol yr haf. |
| | | Cytuno â'r gwelliant arfaethedig (Cam 2b) i Barth Diogel Aberteifi rhwng y Stryd Fawr a Phendre. |
| | | Y byddai'r Parthau Diogel ar waith yn ystod yr haf, waeth beth yw Lefel Rhybudd Llywodraeth Cymru, er mwyn rhoi lle i'r nifer uwch o ymwelwyr yn nhrefi Ceredigion gynnal pellter cymdeithasol. |
| | | Cymeradwyo'r cais i gynnal Cloddiad Archeolegol ym Mhendinas ym mis Awst 2021 ar yr amod nad oes cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o Covid-19 bryd hynny. |
| 210 | 13.05.21 | Cytuno ar y cynigion ym mhapur sesiwn holi ac ateb Arolygiaeth Gofal Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ymweld â Chartrefi Gofal i Oedolion, a oedd yn amlinellu dull graddol Ceredigion o wella trefniadau ymweld mewn Cartrefi Gofal mewn ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru a fyddai'n cael eu cyhoeddi ar 14 Mai 2021. |
| | | Cymeradwyo'r cais i waith ddechrau gyda'r archwiliadau amgylcheddol ym mhob lleoliad i lywio'r gwaith cynllunio ar gyfer gwell trefniadau ymweld. |
| | | Cefnogi cyflwyno ymweliadau yn yr awyr agored yn gynharach, cyn 7 Mehefin, a'r posibilrwydd o dripiau byr i breswylwyr Cartrefi Gofal. |
| | | Ailgyflwyno gwasanaethau torri glaswellt ar gyfer Cartrefi Gofal ar unwaith. |
| | | Dosbarthu holiadur i deuluoedd preswylwyr i weld beth fyddai eu dewisiadau ar gyfer trefniadau ymweld drwy'r cyfnod ailaddasu er mwyn helpu gyda chynllunio. |
| | | Cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda'u cais i wneud Ffordd y Gaer, Aberaeron yn hygyrch y ddwy ffordd hyd at faes parcio'r Cyngor er mwyn gallu gadael yr orsaf a mynd at y gefnffordd yn gyflymach. |
| | | Cymeradwyo'r camau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yng Ngham 2 fel yr amlygwyd yn y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer Ysgolion a Diwylliant. |
| | | Y gellid gweithredu Cam 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Ysgolion a Diwylliant o 7 Mehefin 2021. |
| | | Y dylid symud y camau gweithredu sy'n ymwneud â Natur ac Ymddygiad i Gam 1 a'u gweithredu o ddydd Llun 17 Mai 2021. |
| | | Cymeradwyo Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd. |
| | | Cymeradwyo'r newid i agor Canolfannau Hamdden / Ystafelloedd Ffitrwydd / Pwll Nofio Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron yn raddol |

| | | |
|---|---|---|
| | | o ganlyniad i Lefel Rhybudd 2 yn dod i rym a'r cyfraddau isel parhaus o Covid-19 yn y Sir ac yn Genedlaethol. |
| 211 | 18.05.21 | Caniatáu'r cais i hwyluso'r gwaith o gasglu adnoddau addysg a lles o Theatr Felinfach i'w dosbarthu i bob un o'r lleoliadau nas cynhelir ledled y sir. |
| | | Cymeradwyo Cam 1 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. |
| | | Y dylid symud gwasanaethau Parcio o Gam 3 i Gam 2. |
| | | Cymeradwyo, mewn egwyddor, Cam 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar y ddealltwriaeth ei fod yn cael ei ddwyn gerbron y Grŵp Rheoli Aur wythnos cyn ei weithredu er mwyn ei gymeradwyo'n derfynol. |
| | | Cymeradwyo Cam 1 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad y Gwasanaethau Cynllunio. |
| | | Y dylai Cam 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad y Gwasanaethau Cynllunio ddod yn ôl gerbron y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos nesaf i'w ystyried. |
| | | Cymeradwyo Cam 1 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Twf a Menter, ac eithrio'r gweithgareddau gwirfoddol a'r rhaglenni gwaith ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus. |
| | | Y dylai Cam 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Twf a Menter ddod yn ôl gerbron y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos nesaf i'w ystyried. |
| | | Cymeradwyo Cam 1 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Amgueddfa Ceredigion. |
| | | Y dylai Cam 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Amgueddfa Ceredigion ddod yn ôl gerbron y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos nesaf i'w ystyried. |
| | | Cymeradwyo, mewn egwyddor, Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad yr Archifdy yn amodol ar y Grŵp Rheoli Aur yn ei gymeradwyo yr wythnos nesaf. |
| | | Cymeradwyo'r cais i gynnal gwasanaeth angladd y tu allan i orsaf yr RNLI yn Aberystwyth. |
| | | Cymeradwyo cais ffilmio, gan fod y dyddiadau arfaethedig bellach yn cyd-fynd â bod yn Haen 2. |
| | | Diystyru Opsiwn 1 - Gwneud dim; ac Opsiwn 3 – Gohirio'r contract adeiladu; ar gyfer Canolfan Brechu Torfol Aberteifi. |
| | | Y dylid archwilio Opsiwn 4 – Adleoli'r Canolfan Brechu Torfol – ymhellach ac y dylid ystyried pob opsiwn posib ar gyfer cyfleuster yn gyntaf cyn cael unrhyw drafodaeth bellach ar Opsiwn 2 – Cadw'r Ganolfan Brechu Torfol, parhau â'r Contract Adeiladu ac adeiladu maes parcio dros dro. |
| | | Ymuno â Chyngor Sir Gâr a Chyngor Sir Penfro o ran gofyn am brawf PCR negyddol o fewn 48 awr (yn hytrach na 24 awr) i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty i Gartrefi Gofal. |
| 212 | 25.05.21 | Cymeradwyo mapiau'r Parthau Diogel ar gyfer y Borth ac Aberaeron. |
| | | Y dylai'r trefniant i gau ffyrdd ym Mharthau Diogel Aberystwyth ac Aberteifi gael ei roi ar waith o 28 Mai 2021 tan 7 Mehefin 2021 ac o 2 Gorffennaf 2021 tan ddiwedd mis Medi 2021 (ac eithrio ar ddydd Sul). |
| | | Y dylai'r trefniant i gau ffyrdd ym Mharth Diogel Ceinewydd gael ei roi ar waith o 28 Mai 2021 tan ddiwedd mis Medi 2021. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymeradwyo Cam 1 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad gwasanaeth CERED (Menter Iaith Ceredigion). |
| | | Y gall yr elfennau sydd wedi'u cynnwys yng Ngham 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Porth Cynnal, nad ydynt yn ddibynnol ar ofod swyddfa, ddechrau o 28 Mai 2021. |
| | | Cymeradwyo'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth. |
| | | Cymeradwyo'r diwygiad arfaethedig i'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad 'Gofal Preswyl – Apwyntiadau Cleifion Allanol i Breswylwyr / Derbyniadau Brys' sy'n ymwneud ag ynysu. |
| | | Cymeradwyo'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer elfennau TGCh a Rheoli Gwybodaeth y gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid, yn amodol ar yr addasiadau a awgrymir fel y trafodwyd gan y Grŵp Rheoli Aur. |
| | | Y gallai uchafswm o 21 aelod o Staff gael mynediad i Ganolfan Rheidol ar unrhyw adeg, ac y byddai hyn yn parhau i gael ei reoli gan Reolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Eiddo. |
| | | Cymeradwyo Dogfen Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur ar gyfer y cyfnod rhwng 2 Mawrth 2021 a 29 Ebrill 2021. |
| | | Cymeradwyo cais ffilmio. |
| | | Nad yw cymeradwyaeth ar gyfer ceisiadau ffilmio angen dod gerbron y Grŵp Rheoli Aur yn ystod Lefel Rhybudd 2 neu Lefel Rhybudd 1. |
| | | Cymeradwyo cais ffilmio. |
| | | Cymeradwyo cais ffilmio. |
| | | Cymeradwyo'r broses arfaethedig a gyflwynwyd ar gyfer gweinyddu Taliadau Cydnabod Gweithwyr Gofal Cymdeithasol i weithwyr Cyngor Sir Ceredigion, gan gydnabod y gallai'r meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fod wedi cynnwys carfan ehangach o staff. |
| | | Cymeradwyo cynnig y Panel i gytuno ar y cais am ryddhad Treth y Cyngor am gyfnod o 5 mis oherwydd yr anallu i ddod o hyd i denant yn ystod cyfyngiadau Covid-19. |
| 213 | 27.05.21 | Cymeradwyo'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, yn amodol ar y diwygiad y byddai 2 Swyddog dynodedig yn cael mynediad i Neuadd y Sir ddau ddiwrnod yr wythnos i hwyluso'r gwaith o gasglu a chyflenwi offer. |
| | | Y byddai Y Gwndwn yn cael ei gadw fel cyfleuster corfforaethol ar gyfer y misoedd nesaf. |
| | | Cymeradwyo'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer Theatr Felinfach, yn amodol ar y diwygiad na fydd Y Gwyndwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgareddau. |
| | | Cymeradwyo'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd. |
| | | Cymeradwyo'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion. |
| | | Y gellid defnyddio Ystafell Afallon, Felinfach ar gyfer hyfforddiant cynefino'r Gwasanaeth Porth ar gyfer 2 weithiwr newydd. |
| | | Y gellid defnyddio Ystafell Afallon, Felinfach ar gyfer gweithdy Rhaglen Gydol Oes a Lles ar gyfer hyd at 6 Swyddog ar 14 ac 18 Mehefin 2021. |
| | | Y gellid cynnal profiad gwaith o gartref. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gallai 1 Swyddog TGCh dynodedig gael mynediad i Benmorfa i gasglu gliniaduron a mynd â nhw i Ganolfan Rheidol ar gyfer gwaith cynnal a chadw. |
| 214 | 08.06.21 | Y gellid cynnwys Parc Netpool, Aberteifi yng Ngham 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Porth Cymorth Cynnar er mwyn i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau awyr agored sy'n eiddo i'r Cyngor. |
| 215 | 10.06.21 | Cyfeirio'r cais i gydsynio i Reidiau ar gefn Asyn ar Bromenâd Aberystwyth i'r Grŵp Gweithgareddau a Digwyddiadau a sefydlwyd o dan Eitem 8 o'r Agenda. |
| | | Cymeradwyo'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ceredigion a Phrifysgol Aberystwyth i ddefnyddio pwll nofio Prifysgol Aberystwyth tra bod pyllau nofio Plascrug a Llanbedr Pont Steffan ar gau oherwydd problemau mecanyddol, ar yr amod y cynhelir adolygiad treigl o'r trefniadau o ganlyniad i bryderon ynglŷn â'r amrywiolyn Delta. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig i sefydlu grŵp pwynt cyswllt i ystyried ceisiadau Gweithgareddau a Digwyddiadau i ddechrau. |
| | | Bod y ceisiadau presennol yn ymwneud â Reidiau ar gefn Asyn ar Bromenâd Aberystwyth, digwyddiad Ras am Fywyd, ac ailagor y Farchnad Ffermwyr yn cael eu cyfeirio at y Grŵp Gweithgareddau a Digwyddiadau fel peilot ac yn dod yn ôl gerbron y Grŵp Rheoli Aur gyda barn. |
| | | Cyfeirio'r cynnig i ailddechrau Marchnad Ffermwyr Aberystwyth ar hen safle Gorsaf Fysiau Arriva ar Goedlan y Parc i'r Grŵp Gweithgareddau a Digwyddiadau a sefydlwyd o dan Eitem 8 o'r Agenda. |
| | | Cymeradwyo'r cynigion a wnaed ynghylch symud ffeiliau o Felinfach, yn ogystal â mynediad i staff i gasglu eiddo personol a chasglu offer Hywel Dda. |
| 216 | 15.06.21 | Gwrthod y cais am raglen reolaidd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer gwaith Cynnydd a Datblygu'r Gwasanaeth Porth yng nghyswllt y Grant Cymorth Tai, fodd bynnag, nodwyd y gellid gwneud ceisiadau pellach pe bai esboniad clir ynglŷn â pham fod angen cyfarfod ar gyfer tasg benodol na ellid ei gwneud yn rhithiol. |
| | | Bod y cais am le ychwanegol i'r Gwasanaeth Cofrestru yng Nghanolfan Rheidol (ar gyfer cau Cofrestrau Priodasau Eglwys) yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y Grŵp Rheoli Aur ddechrau mis Gorffennaf 2021 i'w ystyried ymhellach. |
| | | Y gallai'r gwaith comisiynu ar gyfer Archwiliadau Cynnal a Chadw Ataliol Annibynnol ddechrau, ac y byddai'r Grŵp Rheoli Aur yn adolygu ymweliad yr arolygwyr cyn y dyddiad arfaethedig yn sgil y cynnydd yn Amrywiolyn Delta Covid-19. |
| 217 | 17.06.21 | Cymeradwyo Cam 1 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad y Gwasanaeth Maethu, ar yr amod ei fod yn cael ei ddatblygu'n ofalus gan barhau i adolygu'r darlun cenedlaethol o ran Amrywiolyn Delta Covid-19. |
| | | Cynnig gwrandawiad rhithiol yn ystod yr wythnosau nesaf, neu aros tan fis Medi/pan nad yw'r Amrywiolyn Delta Covid-19 mor gyffredin ag y mae ar hyn o bryd ar gyfer gwrandawiad wyneb yn wyneb. |
| 218 | 22.06.21 | Nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gefnogi arosiadau preswyl Ysgolion Cynradd rhwng nawr a diwedd tymor yr haf oherwydd y niferoedd cynyddol o achosion positif. Adolygiad pellach i'w gynnal ym mis Medi 2021. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Y gall yr ymweliadau a'r arolygiadau a gynhelir gan Swyddogion Safonau Tai a'r Swyddog Safonau Tai ac Effeithlonrwydd Ynni ail-ddechrau ar sail blaenoriaeth a pha mor hanfodol ydynt, gydag asesiadau risg llawn yn cael eu cynnal a'r Cyfarpar Diogelu Personol priodol yn cael ei wisgo. |
| | | Cytuno ar yr ymweliadau trosglwyddo arfaethedig ar gyfer disgyblion Canolfan y Môr a'u rhieni i Ganolfan Felinfach i baratoi ar gyfer eu hadleoli i'r safle ym mis Medi 2021. |
| | | Bwrw ymlaen ag Opsiwn 3 ar gyfer digwyddiad beicio *'Tour of Britain'* ar 8 Medi 2021 (dim gwylwyr yn y man cychwyn yn Aberaeron) am y tro ac adolygu'r sefyllfa ymhen ychydig wythnosau. |
| 219 | 24.06.21 | Caniatáu gwaith atgyweirio a gwaith cynnal a chadw rheolaidd i ailddechrau ar ysgolion ac adeiladau'r Cyngor, ar yr amod bod gweithgareddau wedi'u cynllunio'n briodol a bod camau lliniaru Covid-19 ar waith. Bydd angen rhybudd ymlaen llaw am unrhyw waith sydd wedi'i gynllunio yng Nghanolfan Rheidol. |
| | | Caniatáu i Gontractwr y Cyngor gael mynediad i'r Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff yng Nglanyrafon a Llanbedr Pont Steffan, ar yr amod bod Swyddogion y Contractwr yn cyflwyno prawf Llif Ochrol negyddol cyn eu hymweliad. |
| | | Y dylai cynrychiolydd o'r Tîm Cyfathrebu eistedd ar y Grŵp Gweithgareddau a Digwyddiadau. |
| | | Y dylai Rheolwr y Ganolfan Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) Corfforaethol wneud a gweithredu cyfrifiad ynghylch faint o stoc wrth gefn o PPE y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei gynnal. |
| 220 | 29.06.21 | Y gallai penderfyniadau ar geisiadau am Drwydded Perfformiad Plant gael eu gwneud ar lefel Gwasanaeth tra bod mesurau Haen 1 ar waith, ond y byddai'n rhaid i'r swyddogaeth hon ddod yn ôl gerbron y Grŵp Rheoli Aur os daw mesurau Haen 2 yn ôl i rym. |
| | | Cymeradwyo'r cais i swyddog dynodedig gael mynediad i Benmorfa un bore yr wythnos i baratoi gweithredoedd i'w sganio er mwyn gallu parhau i weithio'n ddi-bapur. |
| | | Caniatáu i aelod o'r tîm gwastraff fynychu hyfforddiant HGV yn Abertawe. |
| 221 | 01.07.21 | Dylai'r Staff hynny sydd wedi gweithio yn y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, ond sydd bellach wedi dychwelyd i'w swyddi arferol, gynorthwyo gyda gwaith Profi, Olrhain a Diogelu eto i helpu yn ystod y drydedd don ddisgwyliedig. |
| | | Darparu safle ysgol i'r Bwrdd Iechyd yn rhad ac am ddim, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd dalu costau cyfleustodau. |
| | | Tacluso y tu allan i safle'r Ysgol uchod, fodd bynnag, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd roi gwybod i'r Cyngor pa ofynion eraill y mae angen eu rhoi ar waith cyn ei defnyddio fel Canolfan Brechu Torfol. |
| | | Cytunwyd bod angen cytundeb ysgrifenedig ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio Ysgol fel Canolfan Brechu Torfol. |
| | | Eu bod o blaid adolygu ac ailysgrifennu canllawiau lleol y Cyngor ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a oedd wedi profi'n bositif am Covid-19, i leoliadau Cartrefi Gofal, gyda'r nod o sicrhau bod y Canllawiau yn cyd-fynd â chanllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | | Cyn i'r model newydd a grybwyllwyd uchod gael ei roi ar waith, dylid gwahodd cynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r fforwm Darparwyr Cartrefi Gofal i roi sicrwydd i'r Staff bod y penderfyniad |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi'i wneud yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd i aelodau'r Tîm Rheoli Digwyddiadau ac yn cael ei gefnogi gan ymchwil sylweddol. |
| | | Cytuno ar y dyddiad cychwyn arfaethedig diwygiedig, sef 2 Awst 2021, ar gyfer Cam 2 Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad Amgueddfa Ceredigion. |
| | | Cytuno ar y dyddiad cychwyn arfaethedig diwygiedig ym mis Medi ar gyfer Cam 2 y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer CERED. |
| | | Cytuno ar y cynnig i symud 3 gweithdy clwb drama o Gam 1 a holl weithgareddau Cam 2 i Gam 3 yn y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer Theatr Felinfach. |
| | | Cymeradwyo rhaglen arfaethedig o weithgareddau yn ystod gwyliau haf ysgolion ar gyfer plant sy’n derbyn addysg gartref, ar yr amod na ddylent amharu ar ddarpariaeth y cytunwyd arno eisoes ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). |
| | | Cymeradwyo'r cynnig ar gyfer y rhaglen haf wedi'i thargedu ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy’n agored i niwed yn ystod gwyliau haf 2021. |
| 222 | 06.07.21 | Cytuno ar y cynnig i ailgyflwyno’r Ganolfan Drochi Ganolog yn dilyn gwyliau hanner tymor cyntaf yr ysgolion ar ddechrau’r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2021. |
| | | Cefnogi Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion ymhellach yn unol â’r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Swyddogion y Cyngor a threfnwyr y digwyddiad. |
| 223 | 08.07.21 | Y dylai'r Cyngor symud oddi wrth adrodd i'r Wasg bob tro y ceir canlyniad prawf PCR positif mewn Ysgolion, ac yn lle hynny aros am ymholiad gan y Wasg ac ymateb yn unol â hynny. |
| | | Gweithredu’r cynigion yn y papur sy'n amlinellu gweithrediadau Ysgolion ym mis Medi 2021, i gynorthwyo gyda chysondeb wrth drosglwyddo i fframwaith Llywodraeth Cymru nad yw ei gyhoeddi eto. |
| | | Derbyn y cynigion sy'n ymwneud ag ailgyflwyno'r Cynllun Grwpiau Gwirfoddol sy'n cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir. |
| | | Cytuno, mewn egwyddor, ar y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer Gweithgareddau Cartrefi Gofal, gyda dyddiad cychwyn ar gyfer Cam 1 yn ail wythnos mis Awst a ‘phan fydd yn ddiogel gwneud hynny’ ar gyfer Cam 2 a’r angen i’r Grŵp Rheoli Aur adolygu hyn cyn ei roi ar waith. |
| | | Cymeradwyo'r canllawiau wedi'u hailysgrifennu ynghylch derbyniadau i Gartrefi Gofal, a oedd bellach yn cyd-fynd â chanllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig i ailysgrifennu Adroddiad Statws Covid-19 i adlewyrchu'r categorïau gwybodaeth y manylir arnynt yn y cynnig. |
| | | Cytuno i ddefnyddio cerbyd staff mewn argyfwng fel cynllun wrth gefn ar gyfer isgyfeirio ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth penodol hwn. |
| | | Cytuno â’r cynigion yn yr Adroddiad sy’n amlinellu trefniadau ar gyfer y rhaglen Haf wedi’i thargedu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, gan ychwanegu y dylid parhau i fonitro sefyllfa Covid-19 yn agos i sicrhau diogelwch y cyfranogwyr. |
| 224 | 13.07.21 | Cefnogi'r penderfyniad a'r rhesymeg wreiddiol i beidio â chaniatáu i rieni fynychu diwrnodau mabolgampau Ysgolion. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cefnogi Sioe Haf Cymdeithas Merlod a Chobiau Cymreig Ceredigion sydd i'w chynnal yn Llanllyr, Talsarn yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt fel y nodir yn y cais a'r trafodaethau dilynol gydag Uwch Swyddog Diogelu'r Cyhoedd. |
| | | Cefnogi cais digwyddiad Sioe Canolbarth Cymru yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt fel y nodir yn y cais a'r trafodaethau dilynol gydag Uwch Swyddog Diogelu'r Cyhoedd. |
| 225 | 15.07.21 | Bod yr ymgyrch TikTok yn cael ei hariannu drwy'r gronfa COVID-19. |
| | | Y gall y Tîm Priffyrdd ohirio unrhyw geisiadau am waith stryd nad yw'n waith brys tan ar ôl gwyliau'r haf, gan gynnwys trwyddedau sgaffaldiau a sgipiau. |
| | | Cymeradwyo cais digwyddiad Rasio Harnais Llanfair Clydogau. |
| | | Y gallai'r Grŵp Ailagor Lleoliadau Cymunedol anfon deunydd cyfathrebu ynghylch eu sesiwn briffio nesaf ar 4 Awst 2021. |
| | | Cymeradwyo'r cais i aelod o'r tîm Cyfleusterau nôl llyfr o ddesg yn Swyddfa Stryd Morgan ar ran aelod o staff o'r Tîm cyfreithiol. |
| 226 | 20.07.21 | Cytuno, mewn egwyddor, y dylai Marchnad Ffermwyr Aberystwyth ailagor yn safle Arriva ar Goedlan y Parc, ar yr amod bod yn rhaid i ddeiliaid pob stondin a'r cwsmeriaid wisgo masg wyneb. |
| | | Parhau i ailgyflwyno gwasanaethau dydd yn araf ac yn bwyllog fel y manylir yn y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad. |
| | | Y dylid cael gwared â'r baneri 'sefwch yn eich swigen' ac y dylid gosod baneri 'parchwch y lle yr ydym yn ei garu' yn lle'r baneri 'mwynhewch Geredigion yn ddiogel ac yn gyfrifol'. |
| | | Darparu 'MiFi Dongle' i Swyddog Cymorth i Wasanaethau (Diogelu'r Cyhoedd) am gyfnod o 3 wythnos er mwyn gallu dal i fyny ar ôl-groniad o waith, tra bod gwaith recriwtio ar gyfer penodiad mwy hirdymor ar gyfer y rôl yn mynd rhagddo. |
| | | Y gallai'r Eisteddfod Genedlaethol gynyddu nifer y tocynnau sydd ar gael i'r 'Eisteddfod Gudd' yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth i 200/250 ar yr amod bod yr asesiadau risg priodol ar waith. |
| | | Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol a'r Grŵp Rheoli Aur yn ystod mis Awst. |
| 227 | 22.07.21 | Cymeradwyo i'r gweithgareddau hyfforddi arfaethedig ar gyfer gweithredwyr priffyrdd gael eu cynnal, fel y nodir yn yr adroddiad. |
| | | Cymeradwyo'r cais i ganiatáu i 3 Aelod o Staff o'r Gwasanaethau Etholiadol gael mynediad i 3 ystafell ar wahân ym Mhenmorfa am ddiwrnod yr wythnos nesaf. |
| 228 | 29.07.21 | Cadarnhau'r penderfyniad i beidio â chaniatáu digwyddiadau yn y bandstand tan fis Medi 2021 oherwydd ymrwymiadau Covid-19 eraill a phwysau ar y gwasanaeth glanhau. |
| | | Cadarnhau cefnogaeth i'r Ras am Fywyd a ras 10k Aberystwyth gael eu cynnal, o ystyried y mesurau diogelwch y manylir arnynt yn yr adroddiad a'r gwaith craffu gan y Grŵp Gweithgareddau a Digwyddiadau. |
| | | Cytunwyd ar y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad arfaethedig ar gyfer ymweld â Chartrefi Gofal, ac eithrio caniatáu i breswylwyr adael y cartref gyda'u hymwelwyr dynodedig am gyfnod o amser oherwydd y gyfradd gyfredol fesul 100k o'r boblogaeth yng Ngheredigion. |
| | | Cymeradwyo'r Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Caniatáu i’r Swyddog Sganio Dros Dro gael mynediad i Benmorfa o 9 Awst 2021 ymlaen, ar yr amod bod y Swyddog yn aros ar wahân oddi wrth y Paragyfreithiwr pan fyddant yn yr adeilad ar yr un pryd. |
| | | Cymeradwyo penderfyniad y Panel i ganiatáu cais am ryddhad ardrethi annomestig o dan Adran 49 i fusnes. |
| | | Cymeradwyo’r cais untro a gyflwynwyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio i gael mynediad i Benmorfa a swyddfa Aberteifi. |
| | | Cytuno ar Gam 1 cynigion ailgychwyn y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, ar yr amod bod yr eitem yn dod yn ôl gerbron y Grŵp Rheoli Aur cyn dechrau Cam 2 ar 6 Medi 2021 fel y gellid asesu unrhyw risgiau ychwanegol yn erbyn y gyfradd fesul 100k o’r boblogaeth ar y pryd. |
| | | Caniatáu cais i lanhau 3 o Gaeau Pob Tywydd y Cyngor yn drwyadl, rhwng 17 ac 19 Awst 2021. |
| 229 | 23.08.21 | Na fyddai’r trefniadau i gau’r ffyrdd yn y Parth Diogel yn Aberystwyth (os byddant dal ar waith) yn cael eu rhoi ar waith ar 8 Medi tan 12:30 |
| | | Y dylid darparu *marquee* i feicwyr y *‘Tour of Britain’* ei ddefnyddio ym Mhenmorfa. |
| | | a) Parhau i dalu premiwm dros dro o £50 yr wythnos y lleoliad ar gyfer lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Cyngor yng Ngheredigion a phob Cartref Preswyl y Tu Allan i'r Sir yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30/09/21). |
| | | b) Parhau i dalu premiwm dros dro o £37 yr wythnos y lleoliad ar gyfer lleoliadau Byw â Chymorth y Cyngor yng Ngheredigion a phob Lleoliad Byw â Chymorth y Tu Allan i'r Sir yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30/09/21). |
| | | c) Parhau i dalu premiwm dros dro o £1 yr awr i bob darparwr Gofal Cartref yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30/09/21). |
| | | d) Parhau i drosglwyddo unrhyw arian premiwm dros dro priodol sy'n gysylltiedig â lleoliadau sy’n cynnwys elfen Bwrdd Iechyd i Ddarparwyr perthnasol, ar yr amod bod hyn yn cael ei ariannu'n llawn gan y Bwrdd Iechyd ac yn unol â Chynlluniau Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Lleol a’r Bwrdd Iechyd Lleol (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30/09/21). |
| | | e) Parhau i ganiatáu i Gartrefi Preswyl Pobl Hŷn, Cartrefi Preswyl i bobl ag Anableddau Dysgu a Darparwyr Byw â Chymorth yng Ngheredigion hawlio eu costau go iawn mewn perthynas â chostau eithriadol sy’n deillio o COVID-19, yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30/09/21). |
| | | f) Parhau i ganiatáu i Gartrefi Preswyl Pobl Hŷn, Cartrefi Preswyl i bobl ag Anableddau Dysgu a Darparwyr Byw â Chymorth yng Ngheredigion dderbyn cyllid mewn perthynas â llefydd gwag sy'n deillio o COVID-19 yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 31/08/21). [Noder – mae hyn bellach yn cael ei dalu'n awtomatig yn hytrach na chael ei hawlio, gan ddefnyddio data sydd eisoes yn cael ei gadw gan y Cyngor]. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymeradwyo’r cynigion i gychwyn Cam 3 y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer Porth Cymorth Cynnar, ar yr amod y dylid adolygu a chynnal trefniadau ymweliadau ansawdd ysgolion Cynnydd o bell. |
| | | Gohirio’r penderfyniad ynghylch ailgychwyn sesiynau’r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff tan ail wythnos mis Medi oherwydd y nifer uchel presennol o achosion positif ledled y sir. |
| | | Cadarnhau'r Polisi ynghylch y trefniadau ar gyfer Staff sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl ymweld â gwlad ar y rhestr oren. |
| | | Cymeradwyo'r cais i ganiatáu i ddau aelod o'r Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth (TMU) fynychu hyfforddiant HGV a phrawf ymarferol ac i un swyddog aros dros nos yn Abertawe oherwydd y pellter teithio dan sylw. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig i'r Arolygiadau Cynnal a Chadw Ataliol Annibynnol gael eu cynnal. |
| 230 | 31.08.21 | Y dylai'r asesiad risg ar gyfer ysgolion Ceredigion ddechrau ar lefel gymedrol hyd yn oed os yw'r statws asesu ar lefel Genedlaethol neu ranbarthol yn isel. |
| | | Cytuno â'r argymhelliad, yn sgil yr anawsterau i gynnal pellter corfforol mewn ysgolion a'r risgiau a nodwyd, bod gweithwyr beichiog yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gartref tan 31.10.21 yn y lle cyntaf. Roedd angen darparu cyllid ar gyfer staff cyflenwi o gyllid wrth gefn oni ellir hawlio'r costau o'r gronfa Caledi. |
| | | Gohirio'r penderfyniad ar y Cynllun Addasu wrth Symud tuag at Adferiad ar gyfer Cartrefi Gofal tan ddiwedd mis Hydref oherwydd y gyfradd heintio bresennol a chyfradd yr achosion positif, yn ogystal ag asesu pa effaith y bydd disgyblion yn dychwelyd i’r Ysgol a myfyrwyr yn dychwelyd i’r Brifysgol yn ei chael. |
| | | Cadarnhau’r penderfyniad i adleoli’r Uned Profi Covid-19 Symudol i faes parcio Penmorfa. |